




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

ECAD5002C

Yr Iaith ar Daith 2

Dulliau Cyfathrebu Cyfredol i Addysgu Iaith

- ▶ Gan feddwl yn ôl dros eich blwyddyn a hanner gyda ni, beth ydych chi wedi dysgu fel ‘athrawon ieithoedd’ yn y sector cynradd?
 - ▶ Beth yw eich profiad chi o ran dysgu ac addysgu iaith?
 - ▶ Trafodwch yn eich grŵp gan nodi unrhyw ansoddeiriau allai ddisgrifio’r dulliau a ddefnyddiwyd mewn unrhyw wersi rydych chi wedi eu profi. Gallwch dynnu ar eich profiad fel disgyblion neu fyfyrwyr ar gyfnodau PAP.
- 

‘Iaith Achlysurol’ NEU ‘IAITH ATODOL’


Incidental Language

Beth mae’r enw yma’n ei awgrymu?

Mae ‘Addysgu Achlysurol’ yn broses o drosglwyddol iaith drwy labelu a disgrifio yn y rhyngweithio sy’n digwydd yn naturiol rhwng oedolyn a phlentyn.

Ystyriwch y gwahaniaeth rhwng dysgu ‘achlysurol’ a dysgu ‘bwriadol’.

**YSTYRIWCH Y GWAHANIAETH RHWNG
DEFNYDDIO ATODOL AC ACHLYSUROL I
GYFIEITHU ‘INCIDENTAL’!**



Cyrch-ddull a Dull


Cyrch-ddull

Label 'ymbarel' yw *cyrch-ddull*. Cyfeiria at set o ragdybiaethau, damcaniaethau a chredoau sy'n cydfynd â'i gilydd ac sydd wedi eu seilio ar natur dysgu ac addysgu iaith (Mae 'cyrch-ddull hefyd yn adlewyrchu 'athroniaeth'.)

Dull

Mae'r label *Dull* yn cyfeirio at y modd y rhoddir y *cyrch-ddull* ar waith yn yr ystafell ddosbarth.

Heddiw, byddwn yn
ystyried mewn
manylder cyrch-
ddulliau a dulliau ar
gyfer addysgu iaith.



Y DULL TROCHI

- ▶ Yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, y dull a ddefnyddir gan amlaf yw'r **Dull Trochi**. Mae'r plant yn cyrraedd y dosbarth derbyn a waeth beth yw iaith y cartref maen nhw'n cael eu trochi yn iaith yr ysgol, sef Cymraeg. Mae'r athrawon a'r gweinyddwyr dosbarth yn siarad Cymraeg drwy gydol y diwrnod, mae'r gweithgareddau dysgu yn cael eu cyflwyno a'u cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae pob disgybl yn cael ei annog i fynegi ei hun yn Gymraeg.

Y DULL GRAMADEG

- ▶ Ar y pegwn arall, ceir y **Dull Gramadeg**. Mae'r dull hwn yn deillio o edrych ar 'system' yr iaith dan sylw, a'i thorri'n setiau o reolau gramadegol sy'n gallu cael eu defnyddio fel blociau adeiladu. Mae'r blociau hyn yn cael eu dadansoddi a'r rheolau a welir ynddynt yn cael eu hesbonio a'u dysgu. 'Slawer dydd, hwn oedd yr unig ddull a ddefnyddiwyd mewn ysgolion uwchradd lle'r oedd dysgu Lladin a Groeg er mwyn darllen testunau llenyddol yn hytrach na siarad yn bwysig. Mae'r dull wedi colli poblogrwydd yn ddiweddar, er fod llawer o nodweddion ardderchog yn perthyn iddo.

Y DULL UNION

- ▶ Daeth y Dull Union fel adwaith i'r dull *gramadeg*, ac yn ôl y dull hwn, mae'r athro yn osgoi pob esboniad ac yn ceisio dysgu drwy luniau ac ystumiau'n unig. Mae'r pwyslais yn gyfangwbl ar ddefnyddio'r iaith newydd (yr 'iaith darged') fel cyfrwng.

Wyddoch chi beth sydd yma?



Y DULL CLYWLAFFAR

- ▶ Mae'r **Dull Clywlafar** wedi bod un dylanwadol iawn. Mae'n seiliedig ar ddynwared a drilio. Yn debyg i'r *dull union*, mae'r pwyslais ar siarad iaith a defnyddio'r iaith darged fel cyfrwng, ond mae hefyd yn ceisio amlygu'r gwahaniaeth rhwng yr iaith gyntaf a'r iaith newydd. Prif rôl yr athro yn y dull hwn yw fel 'driliwr', gan annog y dosbarth cyfan i ail-adrodd un patrwm cyn gofyn i unigolion ei ail-adrodd, cyn symud ymlaen at y patrwm nesaf. Fel mae'r enw'n ei awgrymu, ar y gwrando a'r siarad mae'r pwyslais yn gyfangwbl yn y dull hwn.

Y DULLIAU CYFATHREBOL

- ▶ O tua 1970 ymlaen, daeth 'chwyldro' yn y modd yr oedd athrawon yn addysgu iaith, a daeth ystod o **Ddulliau Cyfathrebol** i fod. Mae'r dulliau hyn yn parhau'n boblogaidd heddiw. Gan fod 'cyfathrebu' yn golygu 'rhyngweithio' rhwng pobl, mae'r gwersi wedi eu strwythuro fel eu bod yn cynnig cyfle i'r disgyblion ddatblygu sgiliau llafar. Mae'r fersiynau gorau o'r dulliau hyn yn tynnu sylw at batrymau iaith ac yn aml yn adeliadu ar y patrymau hyn drwy gyfres o 'gemmau' a gwaith pâr neu grwp.

Y DULL DYSGU TRWY DASGAU

- ▶ Mae'r dull Dysgu Trwy Dasgau yn ceisio sicrhau bod y gwersi'n gwbl berthnasol i anghenion penodol y dysgwyr fel eu bod yn gweld gwerth mewn dysgu'r iaith er mwyn cyflawni'r dasg. Yr allwedd felly yw dewis tasgau sy'n berthnasol i'r dosbarth cyfan a'u hannog i roi'r dasg ar waith yn y byd 'go iawn' tu hwnt i'r wers iaith.

Y DULL DYSGU TRWY DASGAU



<https://www.youtube.com/watch?v=GfPrGTNrRNc>

Ymateb Corfforol Llwyf

TOTAL PHYSICAL RESPONSE

► James Asher

YCLI = Ymateb Corfforol
Llwyf

Yn seiliedig ar:

- ✓ y ffordd y mae plant yn dysgu eu mamiaith
- ✓ cydlyniaid iaith a symudiad corfforol.



YCLI – Sut gallaf ei ddefnyddio?

- ▶ Dywedwch air a dangoswch symudiad; ailadroddwch
 - ▶ Mae'r athro yn dweud y gair a'r disgyblion yn gwneud y symudiad; ailadrodd
 - ▶ Mae'r athro yn gwneud y symudiad, mae'r disgyblion yn dweud y gair; ailadrodd
 - ▶ Gydag hyder, gall disgyblion unigol arwain y dosbarth.
 - ▶ Mae'n effeithiol os yw'r disgyblion yn sefyll mewn cylch / hanner cylch
- 


YCLI / *TPR*

- ▶ <https://www.youtube.com/watch?v=bkMQXF0qyQA>

YCLI – Pam ddylwn i ei ddefnyddio?


- ▶ Mae'n hwyl! Mae'n magu cyflymder a'r hwyliau;
 - ▶ Mae'n gofiadwy – yn helpu disgyblion i gofio ymadroddion neu eiriau;
 - ▶ Mae'n dda i ddysgwyr cinesthetig sydd angen bod yn weithredol;
 - ▶ Gellir ei ddefnyddio mewn dosbarthiadau bach neu fawr;
 - ▶ Mae'n gweithio'n dda gyda dosbarthiadau gallu cymysg;
 - ▶ Nid oes angen llawer o baratoad na deunyddiau arnoch.
- 

YCLI – oes anfanteision?

- ▶ Efallai y bydd rhai disgyblion yn teimlo'n chwithig ar y dechrau;
 - ▶ Mae'n well ar gyfer lefel dechreuwyr – dysgu geirfa, cyfarwyddiadau sylfaenol;
 - ▶ Ni allwch ddysgu popeth gydag ef;
 - ▶ Byddai gormod o ddefnydd yn ailadroddus.
- 

CLIL

- ▶ *CLIL = Content and Language Integrated Learning*
- ▶ Dysgu Integredig Cynnwys ac Iaith



CLIL

► David Marsh



Mae CLIL yn cyfeirio at sefyllfaoedd lle mae pynciau, neu rannau o bynciau, yn cael eu haddysgu trwy iaith dramor gydag amcanion deuol, sef dysgu cynnwys a dysgu iaith dramor ar yr un pryd."

Content and Language Integrated Learning

- ▶ Dull sydd wedi ennill poblogrwydd
- ▶ Cyfuniad o gyflwyno iaith fel set o reolau a phatrymau a chyflwyno cyfleoedd i rhyngweithio yn yr iaith.
- ▶ Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen i'r cyfleoedd rhyngweithiol hyn fod yn sefyllfaoedd 'go iawn'. Felly, mewn ysgol, er enghraifft, gellid cyflwyno elfennau iaith mewn dosbarth iaith, ond ar yr un pryd mae cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn dosbarthiadau pynciol eraill.

CLIL

Mae CLIL yn cyfeirio at unrhyw gyd-destun deuol addysgol sy'n lle defnyddir iaith ychwanegol fel cyfrwng wrth addysgu a dysgu cynnwys di-iaith.

Mae'n derm ymbarél sy'n cwmpasu agweddau ar:

Iaith ar draws y Cwricwlwm

Addysg Ddwylieithog

Cyfarwyddyd / dysgu yn seiliedig ar gynnwys

Manteision CLIL

- ▶ Gwella cymhwysedd iaith gyffredinol a phenodol
 - ▶ Datblygu diddordebau ac agweddau amlieithog
 - ▶ Arallgyfeirio dulliau addysgu a dysgu
 - ▶ Cynyddu cymhelliant y dysgwr
- 

Sut mae CLIL yn gweithio?

- ▶ Mae gwybodaeth o'r iaith yn dod yn fodd o ddysgu cynnwys.
- ▶ Mae iaith wedi'i hintegreiddio i'r cwricwlwm eang.
- ▶ Mae CLIL yn seiliedig ar gaffael iaith yn hytrach na dysgu iaith. Gwelir iaith mewn sefyllfaoedd go iawn lle gall myfyrwyr gaffael yr iaith. Mae hwn yn ddatblygiad iaith naturiol.
- ▶ Mae'r pwnc yn pennu'r iaith y mae angen ei ddysgu.
- ▶ Mae rhuglder yn bwysicach na chywirdeb. Mae dysgwyr yn datblygu rhuglder trwy ddefnyddio FL (e.e. Saesneg) i gyfathrebu at ddibenion amrywiol


CLIL

- ▶ <https://www.youtube.com/watch?v=ia6K0CECHFQ>
- ▶ <https://www.youtube.com/watch?v=PyP4XOZXOqg>

CLIL

- ▶ Mae enghreifftiau o gynlluniau gwersi sy'n cynnwys CLIL i'w gweld yma:
- ▶ <http://www.teachingenglish.org.uk/teaching-teens/resources/clil>


Gwers CLIL

- ▶ Nid oes unrhyw beth o'r fath â 'gwers CLIL', ond mae gwersi'n aml yn dilyn patrwm:
 - ▶ Prosesu'r testun
 - ▶ Trefnu gwybodaeth
 - ▶ Adnabod iaith
 - ▶ Tasg i ddysgwyr
- 

Fodd bynnag...

- ▶ Mae CLIL yn dysgu hirdymor. (e.e. Mae myfyrwyr yn datblygu' n fedrus yn Saesneg ar ôl 5–7 mlynedd mewn rhaglen ddwyieithog dda.)

CLIL by another name...

- ▶ Content-based Instruction (CBI)
 - ▶ Content-based Language Instruction (CLIL)
 - ▶ Content-based Language Teaching (CBLT)
 - ▶ Foreign Language Medium Instruction (FLMI)
 - ▶ Content-support ELT
 - ▶ Four-handed foreign language instruction
 - ▶ Foreign Languages Across the Curriculum (FLAC)
 - ▶ Cross-Curricular Teaching
 - ▶ Interdisciplinary Teaching
 - ▶ Dual-focused Language Instruction
 - ▶ Content-centred English Teaching
 - ▶ Content-enriched English Teaching
 - ▶ Content-infused Language Teaching
 - ▶ Theme-based Language Teaching
 - ▶ Topic-based Language Teaching
 - ▶ Discipline-based ESL Instruction
 - ▶ Sheltered Subject Matter Teaching
 - ▶ Plurilingual Instruction
 - ▶ Learning skills based ELT / ESP
- 

Dull Iaith Seiliedig ar Gynnwys

- ▶ Arfer da yn Ysgol Penllergaer – Anna Edwards
- ▶ <http://www.cyrsiausabothol.cymru/experiences-on-course>

Lightbown & Spada

– Cyfweliad

- ▶ Awdudron/ Authors of 'How Languages Are Learned'.
- ▶ <https://www.youtube.com/watch?v=pxMpgclkfOo>

Llyfryddiaeth a darllen pellach

Baker, C. (2011) *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism (5th Edition)*, United States of America: McNaughton & Gunn Ltd.

Richards, J.C. (2006) *Communicative Language Teaching Today*, Cambridge: Cambridge University Press.

Richards, J.C. & Rodgers, T S. (2014) *Approaches and Methods in Language Teaching (3rd Edition)*, Cambridge: Cambridge University Press.



Aseiniad 1 – 40%

Lluniwch ymateb
beirniadol i'r cwestiwn
canlynol:

Pe byddai model Gwlad y
Basg yn cael ei
fabwysiadu yng
Nghymru pa fath o
newidiadau y byddai'n
rhaid eu cyflwyno i
addysgu Cymraeg yn y
sector cyfrwng Saesneg?

Give a critical response
to the following
question:

If the Basque model were
to be adopted in Wales
what changes would
need to be implemented
to the teaching of Welsh
in the English-medium
sector?

Cyflwyno / Submission
7/1/19


Dychwelyd / Handback
4/2/19

Erthygl

- ▶ Adran 5.
- ▶ Gwlad y Basg

Article

- ▶ Section 5.
- ▶ The Basque Country



Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer leithoedd: Dysgu, Addysgu, Asesu (CEFR)

- ▶ Sefydlwyd – Cyngor Ewrop yn 2001
- ▶ 6 lefel gyfeirio:
 - ▶ A1, A2, – Defnyddiwr Mynediad / Dechreuwyr
 - ▶ B1, B2, – Defnyddiwr Annibynnol
 - ▶ C1 and C2 – Defnyddiwr Meistroli / Hyfedredd

Ysgrifennu Ymateb Beirniadol */ Writing a Critical Response*

- ▶ Nid yw bod yn feirniadol yn golygu i feirniadu mewn ffordd gwbl negyddol. Mae bod yn feirniadol o destun yn golygu eich bod yn cwestiynu'r wybodaeth ac unrhyw farn sy'n ymddangos yn y testun, mewn ymgais i werthuso neu farnu ei werth.
- *To be critical does not mean to criticise in an exclusively negative manner. To be critical of a text means that you question the information and opinions in the text, in an attempt to evaluate or judge its worth overall.*

Cyfeirnodau / References

- ▶ Cyfeiriwch at y Llawlyfr Cyfeirnodï (ar Moodle) wrth lunio'r Rhestr Cyfeirnodau.
- ▶ Dylech gyfeirnodï'r testunau a gyfeiriwyd atynt yn y aseiniad yn unig. *Nid* oes gofyn i chi gynnwys llyfryddiaeth (h.y. testunau a ddarllenwyd ond *ni* ddyfynnwyd/cyfeiriwyd atynt o fewn y gwaith).
- *Please use the referencing guide (available on Moodle) to construct your Reference List.*
- *You should only reference texts used in the assignment. You are not required to include a bibliography (i.e. you do not need to list any texts read but not referred to).*

ECAD5002C

Yr Iaith Ar Daith 2

